**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS,
Prif Weinidog Cymru

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Mark,

Datganiad y Prif Weinidog ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn nodi sylwadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ynghylch eich Datganiad Deddfwriaethol diweddar, i'r graddau y mae'n ymwneud â'n cylch gwaith ni, ac er mwyn gofyn am sicrwydd/eglurhad ar sawl mater.

Byddwch yn cofio bod y Pwyllgor, cyn Datganiad y llynedd ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol, wedi ysgrifennu atoch er mwyn eich annog i flaenoriaethu Bil llywodraethu amgylcheddol ym mlwyddyn dau o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Roeddem yn siomedig iawn eich bod wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Yn dilyn Datganiad eleni, mae'n resyn ein bod y teimlo bod angen inni ysgrifennu atoch unwaith eto yn sgil y ffaith eich bod eto wedi dewis peidio â blaenoriaethu Bil llywodraethu amgylcheddol.

Rydym eisoes wedi codi pryderon gyda chi a Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ynghylch y ffaith bod y mesurau interim sydd ar waith at ddibenion diogelu'r amgylchedd yn annigonol. Yn sgil ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar gyda chynrychiolwyr o Environmental Standards Scotland a Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, gwnaeth ein pryderon ddwysau. At hynny, cawsom ein hatgoffa'n glir am y ffaith y gallai Cymru fod wedi osgoi'r bylchau llywodraethu amgylcheddol sylweddol ac annerbyniol sy'n bodoli ar hyn o bryd pe bai Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddigon blaengar i weithredu'n gynt, fel ei chymheiriaid yn yr Alban a Lloegr.

Mae saith mlynedd bellach wedi mynd heibio ers refferendwm yr UE, pan fynegodd y sector amgylcheddol bryderon am y tro cyntaf ynghylch y bwlch amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE, ac mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i achub ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i fynd i'r afael â'r bwlch hwnnw. Os na chaiff corff llywodraethu amgylcheddol cwbl weithredol ei sefydlu cyn diwedd cyfnod Llywodraeth Cymru mewn grym, bydd hynny'n fethiant anfaddeuol ar ei rhan. Rydym yn ceisio sicrwydd gennych y bydd amser ar gael ym mlwyddyn pedwar o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer sicrhau bod corff o'r fath yn cael ei wireddu cyn diwedd y Chweched Senedd.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i gyflwyno Bil bysiau ym mlwyddyn tri o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd diddordeb brwd yn nyfodol gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Er ein bod yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddiogelu gwasanaethau yn sgil COVID, mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau a threfniadau ariannu dros y tymor hwy. Bydd y Bil bysiau yn hollbwysig o ran sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am amseriad y Bil bysiau y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i nodi yn eich Datganiad.

Rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod yr amserlen ar gyfer y Bil Diogelwch Tomenni nas Defnyddir wedi cael ei hoedi, a'r ffaith y bydd y Bil bellach yn cael ei ddwyn ymlaen ym mlwyddyn tri o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol yn hytrach na blwyddyn dau, fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Rydym yn ceisio sicrwydd gennych na fydd yr oedi yn yr amserlen ar gyfer y Bil Diogelwch Tomenni nas Defnyddir yn effeithio ar Filiau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yr ydych wedi ymrwymo i'w cyflwyno ym mlwyddyn tri – hynny yw, y Bil bysiau – ac yn y blynyddoedd dilynol.

Byddem yn croesawu ymateb i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.